



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 1614 (Cy. 338)

2020 No. 1614 (W. 338)

Y DRETH DIRLENWI, CYMRU

LANDFILL TAX, WALES

Rheoliadau Treth Gwarediadau
Tirlenwi (Cyfraddau Treth)
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

The Landfill Disposals Tax (Tax
Rates) (Wales) (Amendment) (No.
2) Regulations 2020

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi sydd i'w chodi ar warediadau trethadwy (o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017) a wneir ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

These Regulations prescribe the standard rate, lower rate and unauthorised disposals rate for landfill disposals tax chargeable on taxable disposals (within the meaning of Part 2 of the Landfill Disposals Tax (Wales) Act 2017) made on or after 1 April 2021.

Y gyfradd safonol yw £96.70 y dunnell, y gyfradd is yw £3.10 y dunnell a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw £145.05 y dunnell.

The standard rate is £96.70 per tonne, the lower rate is £3.10 per tonne and the unauthorised disposals rate is £145.05 per tonne.

Bydd gwarediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2020 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Ebrill 2021 yn parhau'n ddarostyngedig i'r cyfraddau a osodir gan Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/95 (Cy. 16)) o ganlyniad i'r diwygiad a wneir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn.

Taxable disposals made on or after 1 April 2020 but before 1 April 2021 will remain subject to rates set by the Landfill Disposals Tax (Tax Rates) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/95 (W. 16)) as a result of the amendment made by regulation 4 of these Regulations.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a Regulatory Impact Assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ and on the Welsh Government's website at www.gov.wales.

2020 Rhif 1614 (Cy. 338)

2020 No. 1614 (W. 338)

Y DRETH DIRLENWI, CYMRU

LANDFILL TAX, WALES

Rheoliadau Treth Gwarediadau
Tirlenwi (Cyfraddau Treth)
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

The Landfill Disposals Tax (Tax
Rates) (Wales) (Amendment) (No.
2) Regulations 2020

Cymeradwywyd gan Senedd Cymru

Approved by Senedd Cymru

Gwnaed am 9.57 a.m. ar 21 Rhagfyr 2021

Made at 9.57 a.m. on 21 December 2021

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 5.00 p.m. ar 21 Rhagfyr 2021*

*Laid before Senedd
Cymru at 5.00 p.m. on 21 December 2021*

Yn dod i rym 1 Ebrill 2021

Coming into force 1 April 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(3) a (6), 46(4) a 94(1) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 14(3) and (6), 46(4) and 94(1) of the Landfill Disposals Tax (Wales) Act 2017(1).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2021.

Title and commencement

1. The title of these Regulations is the Landfill Disposals Tax (Tax Rates) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020 and they come into force on 1 April 2021.

Cymhwyso

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â gwarediad trethadwy (o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017) a wneir ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

Application

2. These Regulations have effect in relation to a taxable disposal (within the meaning of Part 2 of the Landfill Disposals Tax (Wales) Act 2017) made on or after 1 April 2021.

Cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi

3. Rhagnodir y cyfraddau a ganlyn yn unol ag adrannau 14(3) a (6), a 46(4) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 yn y drefn honno—

Rates of landfill disposals tax

3. The following rates are prescribed in accordance with sections 14(3) and (6), and 46(4) of the Landfill Disposals Tax (Wales) Act 2017 respectively—

- (a) y gyfradd safonol yw £96.70 y dunnell;
- (b) y gyfradd is yw £3.10 y dunnell; ac
- (c) y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw £145.05 y dunnell.

- (a) the standard rate is £96.70 per tonne;
- (b) the lower rate is £3.10 per tonne; and
- (c) the unauthorised disposals rate is £145.05 per tonne.

Diwygio Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020

4. Yn rheoliad 2 o Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020(1), ar ôl “neu ar ôl hynny” mewnosoder “ond cyn 1 Ebrill 2021”.

Amendment of the Landfill Disposals Tax (Tax Rates) (Wales) (Amendment) Regulations 2020

4. In regulation 2 of the Landfill Disposals Tax (Tax Rates) (Wales) (Amendment) Regulations 2020(1), after “1 April 2020” insert “but before 1 April 2021”.

Rebecca Evans

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
Am 9.57 a.m. ar 21 Rhagfyr 2021

Minister for Finance and Trefnydd, one of the Welsh Ministers
At 9.57 a.m. on 21 December 2021

©© Hawlfraint y Goron 2021

© Crown copyright 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/1614>

ISBN 978-0-348-11951-0



9 780348 119510